

Your Ref/Eich Cyt

Our Ref/Ein Cyf

Date/Dyddiad 25/03/2020

Ask for/Gofynner am Tîm Moderneiddio
Ysgolion

Direct Dial/Rhif Union 01352 704134 /
704014

Annwyl Fudd-ddeiliad / Ymgynghorai

Cynnig i ail-ddynodi Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru

Ddydd Mawrth 17 Mawrth 2020, gwnaeth Cabinet Cyngor Sir y Fflint benderfyniad ar y cynnig uchod.

Ar ôl ystyried y wybodaeth, cymeradwyodd y Cabinet y cynnig a, gan nad oedd y penderfyniad wedi'i 'alw i mewn' ar gyfer archwiliad pellach, y bydd y Cyngor rwan yn gweithredu'r penderfyniad.

Gellir gweld y penderfyniad ar wefan y Cyngor drwy'r ddolen gyswllt a ganlyn (Eitem 6 ar y Rhaglen):

<http://cyfarfodyddpwyllgor.siryfflint.gov.uk/ieListDocuments.aspx?CId=391&MId=4458&Ver=4&LLL=1>

Bydd y broses hon yn cynnwys cau Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm yn weinyddol ar ddydd Llun 31 Awst 2020 ac agor Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr yr Eglwys yng Nghymru Licswm ar 1 Medi 2020.

Wrth benderfynu ar y cais, roedd y Cabinet yn fodlon y bydd y cynnig yn cynnal y sefyllfa bresennol fan lleiaf o ran:

- ansawdd a safonau addysg yn Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm;
- Nifer y lleoedd ysgolion sydd ar gael yn yr ardal;
- dosbarthu cyllid disgyblion er lles pob disgybl yn yr ardal;
- mynediad a ffafriaeth rhieni ar gyfer darpariaeth cyfrwng Saesneg yn yr ardal

County Hall, Mold. CH7 6ND
www.flintshire.gov.uk

Neuadd y Sir, Yr Wyddgrug. CH7 6ND
www.siryfflint.gov.uk



Nodwyd na dderbyniwyd unrhyw wrthwynebiadau yn ystod y Cyfnod Gwrthwynebu ac felly ni chynhyrchwyd Adroddiad Gwrthwynebu.

O safbwynt y ffactorau a nodwyd yng Nghod Trefniadaeth Ysgolion 2018, mae'r penderfyniad wedi ystyried:

1. Ansawdd a Safonau mewn Addysg

- Barn Estyn yw y bydd y trefniant newydd arfaethedig yn cynnal safonau a chanlyniadau ar gyfer disgyblion yn yr ardal fan lleiaf;
- Darparwyd ystod o ddata mewn cyd-destun ynghylch Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm ac ysgolion eraill a allai fod wedi cael eu heffeithio.
- Darparwyd data hefyd yn ymwneud â'r cohortau a aseswyd yn y Cyfnod Sylfaen a Chyfnod Allweddol 2, adroddiadau Estyn a sylwebaeth ynghylch darpariaeth gyfredol ym mhob un o'r ysgolion sy'n destun y cynnig.
- Yn ystod y cyfnod trawsnewid yn dilyn y penderfyniad, bydd y Cyngor yn cymryd pob cam ymarferol i leihau amhariad ar gyfer yr holl ddisgyblion drwy weithio'n agos gydag ysgolion derbyn.
- Ar gyfer disgyblion gydag anghenion dysgu ychwanegol, rheolir y cyfnod trawsnewid gan swyddogion addysg anghenion dysgu ychwanegol arbenigol. Darperir cefnogaeth ychwanegol lle bo angen i gynorthwyo disgyblion gyda'r cyfnod trawsnewid.

2. Yr angen am leoedd a'r effaith ar hygyrchedd ysgolion

- Bydd y cynnig yn cyfrannu tuag at sicrhau y bydd yr ardal yn cynnal cydbwysedd darpariaeth ar gyfer addysg cyfrwng Saesneg a Chymraeg.
- Bydd y cynnig yn cynnal nifer y lleoedd ysgolion sydd ar gael yn yr ardal fan lleiaf;
- Bydd digon o leoedd ar gael yn y ddarpariaeth ysgol amgen a byddant yn darparu safle o ansawdd cyffelyb fan lleiaf;
- Byddai unrhyw newid i hyd teithiau a chlodiant yn fach iawn os byddai'n cael effaith o gwbl;
- Bydd Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol yn cael ei ddarparu ar gyfer disgyblion yn unol â'r Polisi Cludiant o'r Cartref i'r Ysgol o awdurdod lleol cartref y teulu.

3. Adnoddau addysg a goblygiadau ariannol eraill

- Boed ysgol yn Ysgol Gymunedol neu'n un a Gynorthwyr yn Wirfoddol nid yw'n gwneud gwahaniaeth i'w gyllideb ddirprwyedig.
- Byddai'r Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyr newydd yn etifeddu union sefyllfa ariannol Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm.

4. Ffactorau penodol wrth ystyried cau ysgolion

- Byddai'r effeithiau ar y cymunedau unigol yn fach iawn neu ni fyddai'n cael unrhyw effaith o gwbl gan y bydd yr ail-ddynodiad yn sicrhau y byddai Licswm yn cadw ysgol gynradd yn y pentref.

5. Ffactorau penodol i'w hystyried ar gyfer cynigion i gynyddu darpariaeth mewn ysgolion gwirfoddol neu sefydlu ysgol wirfoddol newydd
 - Rhennir cyfrifoldeb am waith ar eiddo ysgol wirfoddol a gynorthwyir rhwng corff llywodraethu'r ysgol a'r Cyngor. Byddai'r Corff Llywodraethu yn gallu cael mynediad at gyllid drwy "Raglen Atgyweiriadau a Chynnal a Chadw" Llywodraeth Cymru a weinyddir drwy'r Esgobaeth.

6. Ffactorau penodol wrth ystyried y cynigion i newid categori'r ysgol
 - Mae statws pob categori o ysgol yn gyfartal;
 - Gallai disgyblion gael budd o'r ethos Gristnogol cryf a gweledigaeth addysgol Ysgol Wirfoddol a Gynorthwyir newydd yr Eglwys yng Nghymru. Gall hyn helpu i godi safonau a chyflawniad a'u caniatáu i gyflawni eu potensial.

Yn dilyn y penderfyniad, mae'r Cyngor wedi ymrwymo i weithio gyda theuluoedd, staff a Llywodraethwyr Ysgol Gynradd Gymunedol Licswm, yn ogystal ag Esgobaeth Llanelwy i gefnogi dysgwyr drwy'r cyfnod trawsnewid.

Mae'r Llythyr Penderfyniad hwn i'w weld ar wefan Cyngor Sir y Fflint a gellir ei gweld trwy ddilyn y ddolen gyswllt isod:

<https://flintshire.gov.uk/cy/PDFFiles/Lifelong-Learning/Schools/School-Modernisation-Area-Schools-Review/Lixwm-CP-Sep19/Lixwm-Change-of-Category-Determination-Letter.pdf>

Mae pob dogfen berthnasol arall ar gael ar:

<https://www.siryfflint.gov.uk/cy/Resident/Schools/School-Modernisation-Related/Lixwm-Community-Primary-School.aspx>

Yn ogystal, mae pob dogfen ar gael fel copïau caled yn Gymraeg a Saesneg a gelir gwneud cais i'w cael mewn print bras, Braille ac ieithoedd amgen. Os bydd angen copïau caled o unrhyw ddogfennau, cysylltwch â'r Tîm Moderneiddio Ysgolion drwy'r post, dros y ffôn (gweler y manylion isod) neu drwy'r e-bost a ganlyn:

21stCenturySchools@flintshire.gov.uk

Yn ddiffuant



Claire Homard
Prif Swyddog Addysg ac Ieuenctid

Manylion Cyswllt

Tîm Moderneiddio Ysgolion, Addysg ac Ieuenctid, Cyngor Sir y Fflint, Neuadd y Sir,
Yr Wyddgrug CH7 6NB 01352 704134 / 704014